The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu Prosiect Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd

| | |
|---|---|
| **Gwrandawiad Mater Penodol:** | Y Gwrandawiad Mater Penodol cyntaf ar Faterion Economaidd-Gymdeithasol (gan gynnwys llety, addysg, iechyd a lles, iaith a diwylliant, cyfraith a threfn a hamdden a thwristiaeth) |
| **Dyddiad:** | 7 Ionawr 2019, 9.00am i ddechrau am 9.30am |
| **Lleoliad:** | Gwesty Bae Trearddur, Bae Trearddur, Ynys Môn LL65 2UN |

## Gwrandawiadau Mater Penodol

Gwahoddir pob Parti â Buddiant i ddod i wrandawiadau mater penodol, ond byddai'n hwyluso'r broses o'u cynnal pe gallech roi gwybod i Dîm Achos yr Arolygiaeth (Wylfa@pins.gsi.gov.uk) am ddymuniad i gymryd rhan cyn y gwrandawiad.

Mae gan bob Parti â Buddiant yr hawl i wneud cynrychiolaethau llafar mewn gwrandawiadau. Fodd bynnag, mae hyn yn ddarostyngedig i rym yr Awdurdod Archwilio (ExA) i reoli gwrandawiadau.

Bydd lleoliad y gwrandawiad ar agor 30 munud cyn i bob gwrandawiad ddechrau er mwyn iddo allu dechrau'n brydlon. Bydd gwrandawiadau'n gorffen cyn gynted ag y bydd yr ExA yn penderfynu bod pawb sy'n bresennol wedi dweud eu dweud a bod yr holl faterion wedi derbyn sylw.

Diben yr agenda hon yw rhoi arweiniad yn unig. Ni fwriedir iddi fod yn gyfyngedig i'r materion hyn na chynnwys pob mater posibl. Gallai'r ExA ychwanegu materion eraill i'w hystyried, gallai newid y drefn ar gyfer ystyried materion a bydd yn ceisio neilltuo digon o amser i bob mater fel y gellir eu hystyried yn briodol. Os na thrafodir mater penodol mewn gwrandawiad, ni fydd hynny'n atal archwilio'r mater hwnnw ymhellach, gan gynnwys trwy gwestiynau ysgrifenedig pellach.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau y bydd y materion yn cael eu trafod ar y diwrnodau a bennwyd yn yr amserlen. Os bydd yn cymryd llai o amser nag a ragwelwyd i ystyried y materion, gallai'r ExA derfynu'r Gwrandawiad cyn gynted ag y bydd yr holl gyfraniadau perthnasol wedi cael eu gwneud a'r holl gwestiynau wedi cael eu gofyn a'u hateb.

Os oes materion ychwanegol i'w hystyried neu os oes cyflwyniadau sy'n cymryd cryn dipyn o amser mewn unrhyw Wrandawiad, mae'n bosibl y bydd angen ymestyn hyd y sesiwn y diwrnod hwnnw. Fel arall, efallai y bydd angen blaenoriaethu materion a neilltuo eraill ar gyfer cwestiynau ysgrifenedig pellach.

**Sylwer:**

**Er mwyn sicrhau bod yr agenda'n cael ei chyhoeddi cyn gwyliau'r Nadolig, fe'i lluniwyd cyn derbyn cyflwyniadau ar gyfer Terfyn Amser 3.**

**Gwrandawiad Mater Penodol:** Y Gwrandawiad Mater Penodol cyntaf ar Faterion Economaidd-Gymdeithasol (gan gynnwys llety, addysg, iechyd a lles, iaith a diwylliant, cyfraith a threfn a hamdden a thwristiaeth)

**Agenda**

1. **Croeso, cyflwyniadau, trefniadau ar gyfer y gwrandawiad**

2. **Diben y Gwrandawiad Mater Penodol**
   Ystyried effeithiau economaidd-gymdeithasol y Cais, gan gynnwys dewisiadau amgen, gan gyfeirio'n benodol at yr effeithiau a allai ddeillio o leoli hyd at 9,000 o weithwyr adeiladu a staff cymorth cysylltiedig ar Ynys Môn a'r effaith y gallent ei chael ar lety; iaith a diwylliant Cymru; iechyd a lles; hamdden a thwristiaeth a chyfraith a threfn.

3. **Llety**
   a. Sefydlu p'un a fu unrhyw newid i safbwynt Partïon â Buddiant mewn perthynas ag anghenion llety'r prosiect a sut y gallent gael eu bodloni ers y safbwyntiau a ddatganwyd gan Bartïon â Buddiant erbyn terfynau amser 2 a 3.
   b. Yn arbennig, deall y gwahaniaethau barn ynglŷn â'r cynigion ar gyfer Llety Gweithwyr Dros Dro (TWA), gan gynnwys pryd y byddai angen ei ddarparu; ble y dylai gael ei ddarparu a faint o lety a gynigir a'i ansawdd, gan gynnwys dewisiadau amgen.
   c. Sefydlu pa effaith y byddai darparu'r TWA ar y safle yn ei chael ar iaith a diwylliant Cymru; iechyd a lles; hamdden a thwristiaeth a chyfraith a threfn.

   ch. Sefydlu pa effaith y byddai darparu TWA mewn lleoliad(au) amgen yn ei chael ar iaith a diwylliant Cymru; iechyd a lles; hamdden a thwristiaeth a chyfraith a threfn.

   d. Sefydlu p'un a fyddai'r llety amgen i weithwyr (heblaw am hwnnw a ddarperir trwy'r TWA) yn ddigonol, a'r effaith y gallai'r cynnig ei chael ar y stoc dai yn yr Ardal Astudiaeth Economaidd-Gymdeithasol Allweddol (KSA) a'r Parth Cymudo Adeiladu Dyddiol (DCCZ), gan gyfeirio'n benodol at argaeledd a fforddiadwyedd.
   dd. Deall p'un a ellid datrys y gwahaniaethau hyn trwy waith, mesurau lliniaru neu newidiadau ychwanegol i ofynion y gorchymyn caniatâd datblygu drafft (dDCO).

**4. Iaith a diwylliant Cymru**

a. Sefydlu p'un a fu unrhyw newid i safbwynt Partïon â Buddiant mewn perthynas ag effeithiau'r cynnig ar iaith a diwylliant Cymru ers y safbwyntiau a ddatganwyd gan Bartïon â Buddiant erbyn terfynau amser 2 a 3.

b. Yn arbennig, cael dealltwriaeth ddyfnach o sut byddai targedau ar gyfer gweithlu sydd wedi'i leoli gartref a siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyflawni/sicrhau, a'r effeithiau posibl pe na byddent yn cael eu bodloni.

c. Archwilio ymhellach yr effaith bosibl ar ddarpariaeth addysgol, gan gyfeirio'n benodol at yr effeithiau ar ysgolion a gwasanaethau a fyddai'n cynorthwyo gweithwyr a'u dibynyddion, gan gynnwys p'un a allai fod angen strategaeth addysgol.

ch. Deall p'un a ellid datrys y gwahaniaethau hyn trwy waith, mesurau lliniaru neu newidiadau ychwanegol i ofynion y dDCO.

**5. Iechyd a lles**

a. Sefydlu p'un a fu unrhyw newid i safbwynt Partïon â Buddiant mewn perthynas ag effeithiau'r cynnig ar iechyd a lles ers y safbwyntiau a ddatganwyd gan Bartïon â Buddiant erbyn terfynau amser 2 a 3.

b. Cael dealltwriaeth well o'r effaith bosibl ar wasanaethau iechyd a lles presennol a allai ddeillio o'r ffaith bod gweithwyr adeiladu a gweithredol yn byw yn y KSA neu'r DCCZ, a ph'un a fyddai'r rhain yn cael eu lliniaru'n ddigonol.

c. Ystyried yr effaith ar staffio gwasanaethau presennol o fewn y KSA a'r DCCZ, gan gyfeirio'n benodol at y gallu i gadw staff a dymunoldeb darparu gwasanaethau yn Gymraeg.

ch. Deall p'un a ellid datrys y gwahaniaethau hyn trwy waith, mesurau lliniaru neu newidiadau ychwanegol i ofynion y dDCO.

**6. Hamdden a thwristiaeth**

a. Sefydlu p'un a fu unrhyw newid i safbwynt Partïon â Buddiant mewn perthynas ag effeithiau'r cynnig ar hamdden a thwristiaeth ers y safbwyntiau a ddatganwyd gan Bartïon â Buddiant erbyn terfynau amser 2 a 3, a chael dealltwriaeth well o bwysigrwydd y diwydiant twristiaeth i economi Ynys Môn a gogledd Cymru.

b. Ystyried yr effeithiau posibl ar y diwydiant twristiaeth o fewn y KSA a'r DCCZ, gan gyfeirio'n benodol at argaeledd llety gwyliau; gallu busnesau i gadw staff o ystyried y posibilrwydd o weithio yn Wylfa Newydd a'r effeithiau tymor hir posibl ar y diwydiant twristiaeth.

ch. Deall p'un a ellid datrys y gwahaniaethau hyn trwy waith, mesurau lliniaru neu newidiadau ychwanegol i ofynion y dDCO.

**7. Cyfraith a Threfn**

a. Sefydlu p'un a fu unrhyw newid i safbwynt Partïon â Buddiant mewn perthynas ag effeithiau'r cynnig ar gyfraith a threfn ers y safbwyntiau a ddatganwyd gan Bartïon â Buddiant erbyn terfynau amser 2 a 3.
b. Archwilio'r effeithiau posibl ar ddarparu gwasanaethau presennol o fewn y KSA a'r DCCZ, gan gyfeirio'n benodol at ddiogelu'r gymuned bresennol; plismona'r economi nos; cynnydd posibl mewn digwyddiadau/troseddau sy'n gofyn am sylw'r heddlu a'r effaith ar amserau ymateb.

ch. Deall p'un a ellid datrys y gwahaniaethau hyn trwy waith, mesurau lliniaru neu newidiadau ychwanegol i ofynion y dDCO.

**8. Pwyntiau gweithredu sy'n codi o'r Gwrandawiad**

**9. Diwedd y Gwrandawiad**

**Mynychwyr**

Byddai'n ddefnyddiol i'r Awdurdod Archwilio pe gallai'r partïon canlynol ddod i'r gwrandawiad hwn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na fydd partïon eraill yn gallu cyfrannu. Gwahoddir pob Parti â Buddiant i fynychu a gwneud cynrychiolaethau llafar ar y materion a amlinellir yn yr agenda, yn amodol ar ddisgresiwn yr Awdurdod Archwilio.

- Horizon Nuclear Power (yr Ymgeisydd)
- Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council (IACC)
- Cyngor Gwynedd/Gwynedd Council (GC)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/Conwy County Borough Council (CCC)
- Llywodraeth Cymru/Welsh Government (WG)
- Heddlu Gogledd Cymru/North Wales Police (NWP)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/Betsi Cadwaladr University Health Board (BCUHB)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru/Public Health Wales (PHW)
- Land and Lakes Ltd
- Partneriaeth Cynghorau Gogledd Ynys Môn/North Anglesey Councils Partnership (NACP)

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Wylfa Newydd Nuclear Power Station Project Development Consent Order Application

| | |
|---|---|
| **Issue Specific Hearing**: | First Issue Specific Hearing on Socio-Economic Matters (including accommodation, education, health and wellbeing, language and culture, law and order and recreation and tourism) |
| **Date**: | 7 January 2019, 9.00am for 9.30am start |
| **Location:** | The Trearddur Bay Hotel, Trearddur Bay, Isle of Anglesey LL65 2UN |

**Issue Specific Hearings**

All Interested Parties are invited to attend issue specific hearings but it would assist the running of the hearings if notice could be given to the Inspectorate's Case Team (Wylfa@pins.gsi.gov.uk) of a wish to participate prior to the hearing.

Each Interested Party is entitled to make oral representations at hearings. However, this is subject to the Examining Authority's (ExA's) power to control hearings.

The hearing venue will be open 30 minutes prior to the start of each hearing to enable a prompt start. Hearings will finish as soon as the ExA deems that all those present have had their say and all matters have been covered.

This agenda is for guidance only. It is not designed to be exclusive or exhaustive. The ExA may add other issues for consideration, may alter the order in which issues are considered and will seek to allocate sufficient time to each issue to allow proper consideration of them. Any lack of discussion of a particular issue at a hearing does not preclude further examination of this issue, including further written questions.

Every effort will be made to ensure that the issues will be discussed on the days that they are scheduled for. Should the consideration of the issues take less time than anticipated, the ExA may conclude the Hearing as soon as all relevant contributions have been made and all questions asked and responded to.

If there are additional matters to be dealt with or there are submissions that take a considerable amount of time at any Hearing there may be a need to continue the session for longer on the day. Alternatively it may be necessary to prioritise matters and defer others to further written questions.

**Please Note:**

**In order to ensure publication of the agenda before the Christmas break, this has been drafted prior to receipt of submissions for Deadline 3.**

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Issue Specific Hearing**: First ISH on Socio-Economic Matters (including accommodation, education, health and wellbeing, language and culture, law and order and recreation and tourism)

**Agenda**

1. **Welcome, introductions, arrangements for the hearing**

2. **Purpose of the Issue Specific Hearing (ISH)**
   To consider the socio-economic effects of the Application, including alternatives, with particular reference to the effects that could arise from up to 9,000 construction workers and associated support staff locating on Ynys Môn and the effect that they may have on accommodation; the Welsh language and culture; health and wellbeing; recreation and tourism and law and order.

3. **Accommodation**
   a. To establish whether there has been any change in the position of Interested Parties (IPs) regarding the accommodation needs of the project and how they might be fulfilled since those stated by IPs at deadlines (D) 2 and 3.
   b. In particular to understand the differences of opinion over the proposals for Temporary Worker Accommodation (TWA) including when this would need to be provided; where this should be provided and the quantity and quality of the accommodation proposed including alternatives.
   c. To establish what the effects of providing the TWA on-site would have on Welsh language and culture; health and well-being; recreation and tourism and law and order.
   d. To establish what effects providing TWA at an alternative location(s) would have on the Welsh language and culture; health and well-being; recreation and tourism and law and order.
   e. To establish whether the alternative accommodation for workers (other than that provided through the TWA) would be sufficient and the effect that the proposal may have on housing stock within the Key Socio Economic Study Area (KSA) and Daily Constriction Commuting Zone (DCCZ) with particular reference to availability and affordability.
   f. To understand whether these differences could be resolved through additional work, mitigation or changes to requirements of the draft development consent order (dDCO).

4. **Welsh language and culture**
    a. To establish whether there has been any change in position of the IPs regarding the effects of the proposal on Welsh language and culture since those stated by IPs at D2 and D3.
    b. In particular to understand further how targets for home-based workforce and Welsh speakers would be achieved/secured and the effects that could arise if they were not met.
    c. To explore further the potential effect on education provision with particular reference to the effects on schools and services that would provide support for workers and their dependents including whether an educational strategy may be required.
    d. To understand whether these differences could be resolved through additional work, mitigation or changes to the requirements of the dDCO.

5. **Health and wellbeing**
    a. To establish whether there has been any change in position of the IPs regarding the effects of the proposal on health and wellbeing since those stated by IPs at D2 and D3.
    b. To better understand the potential effect on existing health and wellbeing services that may arise from construction and operational workers residing in the KSA or DCCZ and whether these would be adequately mitigated.
    c. To consider the effect on staffing of existing services within the KSA and DCCZ with particular reference to the ability to retain staff and the desirability of providing services in the Welsh language.
    d. To understand whether these differences could be resolved through additional work, mitigation or changes to the requirements of the dDCO.

6. **Recreation and tourism**
    a. To establish whether there has been any change in position of the IPs regarding the effects of the proposal on recreation and tourism since those stated by IPs at D2 and D3 and to better understand the importance of the tourist industry to the economy of Ynys Môn and North Wales.
    b. To consider the potential effects on the tourist industry within the KSA and DCCZ with particular reference to the availability of holiday accommodation; the ability of businesses to retain staff given the potential to work at Wylfa Newydd and the possible long term effects to the tourist industry.
    c. To understand whether these differences could be resolved through additional work, mitigation or changes to the requirements of the dDCO.

7. **Law and Order**
    a. To establish whether there has been any change in position of the IPs regarding the effects of the proposal on law and order since those stated by IPs at D2 and D3.
    b. To examine the potential effects on the provision of existing services within the KSA and DCCZ with particular reference to safeguarding the existing community; policing of the night time economy; potential increase in incidents/crimes requiring police attention and the effect on response times.
    c. To understand whether these differences could be resolved through additional work, mitigation or changes to the requirements of the dDCO.

8. **Action points arising from the Hearing**

9. **Close of Hearing**

**Attendees**

The ExA would find it helpful if the following parties could attend this hearing. However, this does not indicate that other parties will not be able to contribute. All Interested Parties are invited to attend and make oral representations on the matters set out in the agenda, subject to the ExA's discretion.

- Horizon Nuclear Power (the Applicant)
- Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council (IACC)
- Cyngor Gwynedd/Gwynedd Council (GC)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/Conwy County Borough Council (CCC)
- Llywodraeth Cymru/Welsh Government (WG)
- Heddlu Gogledd Cymru/North Wales Police (NWP)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/Betsi Cadwaladr University Health Board (BCUHB)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru/Public Health Wales (PHW)
- Land and Lakes Ltd
- North Anglesey Councils Partnership (NACP)